



YSGOL
DYFFRYN
CONWY

Polisi Iaith Language Policy



Gweledigaeth yr Ysgol yn y Cyd-destun Cenedlaethol

Gweledigaeth yr ysgol yw sicrhau bod pob disgybl yn datblygu i fod yn hyfedr ddwyieithog, er mwyn gallu chwarae rhan lawn yn y gymdeithas ddwyieithog y mae yn rhan ohoni. Yng nghyd-destun y Gymraeg, rhoddir pwyslais mawr ar sicrhau dilyniant ieithyddol i bob disgybl o'r Cynradd i'r Uwchradd a bod cyfleoedd i hwyrddyfodiaid feithrin sgiliau sylfaenol dwyieithrwydd.

I gefnogi'r weledigaeth hon ac yn unol â Strategaeth Addysg Gymraeg Cyngor Sir Conwy 2022-32; a Llywodraeth Cymru, **Cynllun y Gymraeg Mewn Addysg 2022-32** rydym ni fel ysgol yn anelu ar hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i gwneud yn rhan integredig o fywyd yr ysgol.

“Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy weledigaeth i sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym am sicrhau bod pob cyfle i blant a phobl ifanc y sir i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog / amlieithog y maent yn rhan ohoni fel eu bod yn dymuno defnyddio'r iaith o fewn y teulu, yn y cymunedau ac yn y gweithle. Rydym fel awdurdod yn ymrwymedig i ddyheadau Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddwn yn cyfrannu at y weledigaeth hon trwy gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ynghyd ag ysbrydoli ac annog balchder plant a phobl ifanc y sir yn y Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant.” (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg Conwy 2023).

Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod yn **Cynllun y Gymraeg Mewn Addysg 2022-32** bod heriau sylweddol i'w hwynebu yn y bröydd traddodiadol Cymraeg, megis yng Nghonwy ac yn amlinellu eu strategaeth i geisio mynd i'r afael â hyn. Mae'n gyfrifoldeb arnom ni felly i ymateb i'r heriau hyn fel sefydliad addysgol, a gwarchod y Gymraeg.

Mae'r Polisi hwn yn amlinellu cyfrwng dysgu ac addysgu'r Ysgol, o safbwynt y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod o'r staff dysgu i weithredu'r polisi hwn.

Cefndir yr Ysgol

Mae Ysgol Dyffryn Conwy o fis Medi 2023 wedi ei dynodi fel ysgol Categori 3 sef Ysgol Cyfrwng Cymraeg ac yn cynnig ystod eang o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd dysgwyr sydd yn dod i'r Ysgol ym Mlwyddyn 7 yn 2023 yn derbyn o leiaf 70% o'u gweithgareddau Ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg. Mae'r ardal yn un a ystyrir yn un naturiol Gymreig.

Derbynnir croesdoriad amrywiol o ddisgyblion i'r ysgol bob blwyddyn.

- (a) Disgyblion o gartrefi ble mae'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd.
- (b) Disgyblion o gartrefi ble mae'r Saesneg yn iaith yr aelwyd.
- (c) Disgyblion o gartrefi ble siaredir y ddwy iaith ar yr aelwyd.
- (ch) Disgyblion o gartrefi ble siaredir y Gymraeg/Saesneg ac iaith/ieithoedd eraill ar yr aelwyd.

Erbyn hyn mae mwyafrif o'r disgyblion sy'n trosglwyddo o'r cynradd wedi derbyn addysg gynradd Gymraeg. Bwydir Ysgol Dyffryn Conwy gan ysgolion categori 3 – cyfrwng Cymraeg, heblaw am Ysgol Glan Conwy ac Ysgol Talhaiarn. Felly ceir dilyniant naturiol yn y Gymraeg wrth bontio o CA2-CA3 yn y rhan fwyaf o achosion. Ceir hefyd ychydig iawn o hwyrddyfodiaid sy'n cyrraedd yn ystod y cyfnod trosglwyddo ac yn ystod

CA3 a CA4. Mae trefniadau trochi ar eu cyfer. Mae sefyllfa gyfredol yr ysgol felly yn un gryf o ystyried patrymau ieithyddol y gorffennol a'r weledigaeth leol a chenedlaethol i'r dyfodol.

Datganiad Cyffredinol

Mae Cymraeg yn bwnc craidd i bawb yn yr ysgol ac fe'i dysgir hyd at safon TGAU a Safon Uwch yn y famiaith. Anelwn at ddarparu addysg ddwyieithog effeithiol, fel y bydd y profiadau a geir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn hytrach na thrwy gyfrwng un iaith yn unig, yn ehangu gorwelion plentyn, fel y bydd ar ei fantais o'i gymharu â phlentyn uniaith. Anelwn at sicrhau felly fod pob disgybl ar draws y pynciau, beth bynnag fo'i gefndir ieithyddol neu ei allu yn datblygu i fod yn ddisgybl sy'n gallu mynegi ei hun yn ddwyieithog ac yn barod ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol.

Ethos yr Ysgol

Credwn ei bod yn ddyletswydd arnom fel ysgol i ddiogelu'r ethos Gymreig sy'n gynhenid i'r ardal a hyrwyddo'n fwriadus y dimensiwn Cymreig yn y Cwricwlwm. Er mwyn hybu Cymreictod a chreu ethos Gymreig rhoddir lle amlwg i'r Gymraeg yn weledol a chlywedol o gwmpas yr ysgol. Rhoddir lle amlwg i'r iaith :

1. Yn holl agweddau Cwricwlaidd a chymdeithasol yr ysgol.
2. Yn y gwasanaethau boreol ac yn y cyfnodau tiwtorial.
3. Yn weledol o gwmpas yr ysgol megis arwyddion dwyieithog swyddogol ac arwyddion dwyieithog ar hysbysfyrddau.
4. Defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu anffurfiol o amgylch yr ysgol. Anfonir pob gohebiaeth at rieni yn ddwyieithog.
5. Sicrheir defnydd o'r Gymraeg gyda'r cyhoedd ac ymwelwyr i'r ysgol, ar y ffôn neu wrth y dderbynfa.
6. Defnyddir y Gymraeg mewn nosweithiau ffurfiol ac mewn cyhoeddiadau a gohebiaeth i rieni lle y bo hynny'n ymarferol bosib.
7. Hybir ymwybyddiaeth o dreftadaeth a diwylliant Cymreig trwy gynnig gweithgareddau yn yr ysgol a thu hwnt megis wythnos weithgareddau a sgiliau er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn gymdeithasol sy'n sicrhau pwysigrwydd a statws yr iaith.

Agweddau Cwricwlaidd

Y Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau

Disgwylir i bob disgybl astudio Cymraeg a Saesneg hyd at ddiwedd blwyddyn 11 a sefyll yr arholiadau priodol yn y ddau bwnc ar ddiwedd y cyrsiau. Bydd disgyblion trochi a'r hwyr ddyfodiaid hefyd yn sefyll arholiad Cymraeg iaith gyntaf.

Cyfrwng Iaith – CA3

Sicrheir dilyniant ieithyddol naturiol o Gyfnod Allweddol 2, yn ogystal â chyflwyno elfennau yn y ddwy iaith i bob plentyn ym mhob pwnc. Anelir i'r Gymraeg fod y prif gyfrwng addysgu yn CA3, ond diogelir hyfedredd y disgyblion yn y ddwy iaith a rhoddir lle priodol i'r Saesneg mewn rhai unedau gwaith a thafleuni dwyieithog lle

bydd hyn yn berthnasol. Mae'r ysgol hefyd yn cydnabod pwysigrwydd trawsieithu a gallu'r disgyblion i symud o un iaith i'r llall. Bydd trafodaethau yn ystod Cyfnod Allweddol 3 i addysgu Mathemateg a/neu Gwyddoniaeth yn ddwyieithog (gan sicrhau bod hyn yn cadw o fewn y gofynion o sicrhau bod o leiaf 70% o'r Addysgu yn gyfrwng Cymraeg). Gellir darparu cefnogaeth ddwyieithog i ddisgyblion a rhieni gyda gwaith cartref.

Cyfrwng Iaith – CA4

Ym mlynnyddoedd 10 ac 11 cynigir y pynciau i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg gyda opsiwn i astudio rhai pynciau dewis yn y ddwy iaith. Cynghorir y disgybl i barhau yn y cyfrwng y'i dysgwyd yn CA3. Mae mynediad i gopïau o bapurau arholiad yn y ddwy iaith yn bosibl drwy gofrestru ar gyfer arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyfrwng Iaith – Blwyddyn 12/13

Y nod yw sicrhau dilyniant i'r cydbwysedd ieithyddol blaenorol, a bydd cyfrwng yr addysgu yn adlewyrchu'r addysgu blaenorol cyhyd ag y bo'r adnoddau yn caniatáu hynny yn y pynciau a'r grwpiau mwyaf addas. Mae'r ysgol yn cydweithio mewn partneriaeth ag Ysgol y Creuddyn a LINC Conwy i ehangu dewis disgyblion a cheisio amddiffyn pynciau lleiafrifol yn y Gymraeg/Dwyieithog.

Darpariaeth ar gyfer y disgyblion ADY

Bydd Cyd-gysylltydd ADY yr ysgol mewn cyswllt â'r adrannau ac yn arolygu darpariaeth ieithyddol y disgyblion ac yn cynnig cefnogaeth cymorthyddion yn y gwrs.

Cyswllt Cynradd Uwchradd

Mae gan yr ysgol bartneriaeth dda â'r Tîm Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg sy'n gweithio i'r awdurdod.

Cynllun Addysg y Gymraeg, Conwy

Mae'r ysgol yn cael ei chynrychioli ar is-baneli y strategaeth. Mae'r ysgol yn cyd-weithio â'r gymuned ehangach drwy Fforwm Iaith Conwy (Menter Iaith, Yr Urdd, Ffermwyr Ifanc). Yn ychwanegol cynhelir partneriaethau â mudiadau/asiantaethau eraill e.e. Llyfrgelloedd Conwy.

Cynradd Uwchradd

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ysgolion cynradd y dalgylch er mwyn datblygu ac hyrwyddo'r Gymraeg a'r Saesneg.

Staffio a Recriwtio

- Bydd y Gymraeg yn cael ei nodi fel hanfodol wrth hysbysebu swyddi o fewn yr Ysgol.
- Os bydd diffyg neu pryder o ran recriwtio staff bydd ystyriaeth i nodi'r Gymraeg fel manteisiol gan ddiwynnu yn llwyr ar y swydd dan sylw a'r cyfrifoldebau.
- Gwneir pob ymdrech gan yr ysgol i benodi staff hyderus ddwyieithog.

Y Cynllun Trochi

- Mae cynllun ar waith yn nghlwtswr Ysgol Dyffryn Conwy er mwyn paratoi dysgwyr yn ystod Blwyddyn 5 a 6 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i drosi i dderbyn eu haddysg Uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Dyffryn Conwy.

- Os oes yna ddsbarth o ddysgwyr trochi, byddant yn derbyn gwersi trochi ieithyddol yn wythnosol yn ystod blwyddyn 5 a 6 (yn yr Ysgol Gynradd) ac yn treulio amser yn ystod mis Mehefin a Gorffennaf eu bl.6 yn Ysgol Dyffryn Conwy.
- Dysgir hwy gan athrawon Ysgol Dyffryn Conwy gan gynnwys athro / athrawes trochi.
- Cyn penderfynu ymuno â'r cynllun, gwahoddir rhieni'r "dysgwytr trochi" i gyfarfod y Pennaeth a Chydlynedd y Cynllun i drafod yr hyn a ddisgwyllir ganddynt hwy yn ogystal â gan eu plant.
- Bydd amserlen y "dysgwyr" wedi ei addasu'n arbennig i ddatblygu eu hiaith a'u gallu / dealltwriaeth o'r gwaith.
- Pan yn trosglwyddo i'r Ysgol ym Mlwyddyn 7 bydd y dysgwyr os oes angen parhau gyda'r gefnogaeth ieithyddol yn cael eu haddysgu ar y cyd ac yn derbyn cefnogaeth gan athro / athrawes drochi.

Canllawiau i athrawon o ran y Gymraeg

Prif Nod

Nod yr ysgol wrth sefydlu a gweithredu polisi iaith ar draws y cwricwlwm yw sicrhau bod y profiadau ieithyddol a ddarperir i ddisgyblion yn gyson a chyffredin o fewn gwersi, ar draws pynciau a chyfnodau allweddol. Yn ogystal, dylai'r polisi hwn atgyfnerthu athroniaeth yr ysgol o ddatblygu disgyblion sydd yn gallu cyfathrebu yn naturiol a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn meddu ar y sgiliau ieithyddol a fydd yn eu galluogi i gael mynediad i'r gweithle dwyieithog ac i gyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyheadau fel oedolion.

Mae iaith yn fodd o drefnu a chategoreiddio profiadau (yn ogystal â modd cyfathrebu) a dylem fod yn ymwybodol o'r broses ieithyddol sy'n galluogi disgybl i gael gafael ar wybodaeth a dealltwriaeth. Mae pob athro, beth bynnag eu pwnc, yn athro iaith a disgwyllir iddynt fod yn weithredol yn eu rôl i ddatblygu hyfedredd ieithyddol y disgyblion ar lafar, wrth ysgrifennu, ac wrth ddarllen. Yn ogystal, mae gan bob athro gyfrifoldeb i ddefnyddio patrymau iaith lafar ac ysgrifenedig raenus yn y Gymraeg a'r Saesneg ac i drosglwyddo'r patrymau hyn i ddisgyblion.

Anelwn at sicrhau bod y dysgwyr yn ein gofal yn datblygu yn ddysgwyr hyderus dwyieithog a'u bod yn gallu:

- cyfathrebu'n glir a chyda hyder ar lafar, gan ddefnyddio iaith lafar lân, geirfa gyfoethog ac osgoi bratiaith;
- cyfathrebu'n glir a chyda hyder yn ysgrifenedig, a hyn ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd a phwrpasau;
- darllen yn hyderus ac arddangos dealltwriaeth effeithiol o'r amrywiaeth o destunau a ddarllenir ganddynt; datblygu arddull o ysgrifennu gan gyrraedd safon dderbyniol o sillafu, atalnodi.

Rôl Athrawon

Cyfrifoldeb pob athro yw gweithredu'r nodau uchod. Dylai athrawon:

- sicrhau eu bod, yn eu gwersi, yn gweithredu i ddatblygu ac atgyfnerthu sgiliau ieithyddol y disgyblion yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth pwnc penodol;
- bwysleisio pa mor bwysig yw darllen yn eang er mwyn ymchwilio, darllen ar gyfer pleser ac ati. Dylid rhoi ystyriaeth lawn i sgiliau darllen e.e. cip ddarllen (sgimio); llithr ddarllen (sganio); craff ddarllen.
- ddefnyddio patrymau a lefelau iaith briodol a dylent, drwy eu llefaru eu hunain, gyflwyno esiampl o iaith eglur, fanwl gywir a choeth yn gyson.
- ddarparu cyfleodd cyson a strwythuredig i ddisgyblion i siarad â'i gilydd i bwrpas arbennig. Dylai athrawon sicrhau fod disgyblion yn ymwybodol o'r pwysigrwydd i fynegi eu hun yn eglur, yn gywir ac yn rhugl wrth iddynt ddatblygu eu syniadau, gyflwyno gwybodaeth neu fynegi barn. Dylai athrawon dderbyn tafodiaith yn y Gymraeg, iaith safonol yn y Saesneg ond ni ddylid yn y naill iaith na'r llall dderbyn bratiaith.
- gyfoethogi iaith y disgyblion trwy gyflwyno geirfa a therminoleg pwnc penodol gan ddefnyddio termau cyffredin ar draws pynciau cyffelyb. Os yn addas ar gyfer y pwnc a'r disgyblion dylid cyflwyno termau yn

ddwyieithog, boed y wers yn un cyfrwng Cymraeg neu Saesneg, er mwyn atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr o wybodaeth a chysyniadau ac i hyrwyddo eu sgiliau dwyieithog;

- sicrhau bod yr iaith mae plant yn clywed ar lafar, wrth ddarllen ac yn ysgrifenedig, wrth yr athro a chyd ddisgyblion, yn gywir, gan dalu sylw arbennig i nodiadau, cyflwyniadau bwrdd gwyn rhyngweithiol, cofnodion syniadau ar y bwrdd gwyn, arddangosfeydd dosbarth ac ati;
- dynnu sylw disgyblion at wallau iaith ar lafar, yn eu darllen ac yn eu gwaith ysgrifennu a chymryd camau sensitif i gywiro'r rhain. Ni ddylai disgyblion fod o dan yr argraff bod cywirdeb ieithyddol ond yn bwysig mewn gwersi iaith ond hefyd ar draws y cwricwlwm;
- sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir mewn nodiadau neu destunau darllen yn addas ar gyfer oed a gallu'r disgyblion;
- rhoi cyfleoedd aml a chyson i ddisgyblion i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu.